**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/1104/25

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

30 Ebrill 2025

Annwyl Llŷr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Ebrill ynglŷn â dull y Pwyllgor o ystyried Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru).

Rwy'n gwerthfawrogi'r llwyth gwaith deddfwriaethol trwm sydd gan y Pwyllgor ar hyn o bryd, gan orfod craffu ar y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) a'r Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) ar yr un pryd, gyda thrydydd Bil i ddod yn fuan. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni ein bwriad i wneud defnydd llawn o'r amser sydd ar gael i gyflwyno deddfwriaeth newydd y tymor Senedd hwn, drwy gyflwyno nifer o Filiau ym mlwyddyn olaf y Senedd yn ystod y Datganiad Deddfwriaethol blynyddol. Felly, rwy'n awyddus i weithio gyda'r Pwyllgor i sicrhau eich bod yn gallu cefnogi'r amserlen arfaethedig ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), gan fod oedi yn peryglu senario lle bydd tagfa o sawl Bil yn cyrraedd y camau olaf yn agos at ei gilydd ar ddiwedd tymor y Senedd.

Rwyf wedi atodi yn gyfrinachol copi dwyieithog o'r Bil drafft a chopi Saesneg yn unig o'r Memorandwm Esboniadol drafft, i roi cyfle i aelodau'r Pwyllgor weld cwmpas a chyfeiriad arfaethedig y Bil cyn ei gyflwyno'n ffurfiol. Nodwch nad fersiwn derfynol yw hon, ac mae'n bosibl y gallai fod newidiadau yn cael eu gwneud fel sy'n ofynnol gan broses Penderfyniad y Llywydd cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Senedd. Gobeithio y bydd hyn yn caniatáu trafodaeth ystyrlon ar yr amserlen arfaethedig gyda'r Pwyllgor Busnes, gan adlewyrchu maint, cwmpas a chymhlethdod y ddeddfwriaeth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn hefyd yn hapus i rannu'n gyfrinachol copi dwyieithog o'r Bil drafft a chopi Saesneg yn unig o'r Memorandwm Esboniadol drafft gyda'r rhanddeiliaid allweddol – gyda cafeatau priodol a rhesymwaith dros rannu'r dogfennau gyda nhw – er mwyn rhoi cyfle iddynt ystyried yn gynnar y cynigion yn y Bil drafft, i lywio eu tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig. Byddwn yn falch o weithio gyda'r Pwyllgor i gytuno pa sefydliadau y dylid cael golwg ymlaen llaw o'r dogfennau.

Fel y nodwyd yn eich llythyr, mae'r rhain yn amgylchiadau eithriadol sy'n gofyn am ymagwedd greadigol, ac ni fyddem am i hyn osod cynsail.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs